

CYFARFOD:	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>
DYDDIAD:	<b>18 TACHWEDD 2021</b>
TEITL:	<b>STRATEGAETH CYLLIDEB 2022/23</b>
PWRPAS:	<b>Cynllunio Ariannol</b>
GWEITHREDIAD:	<b>Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r strategaeth, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet</b>
AELOD CABINET:	<b>CYNGHORYDD IOAN THOMAS</b>
SWYDDOG CYSWLLT:	<b>DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID</b>

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwyllir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol, gan gynnwys adroddiadau ar y gyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Strategaeth Cyllideb 2022/23) i'r Cabinet ar 28 Medi 2021. Mae'r swmp o'r cynnwys yn parhau'n gyfredol, a byddwn yn darparu diweddariad llafar i'r Pwyllgor ar ddatblygiadau diweddar.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r amserlen, y rhagolygon a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt strategaeth cyllideb y Cyngor, ystyried penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**

- Taflen penderfyniad Cabinet 28/09/2021
- Adroddiad Cabinet 28/09/2021: Strategaeth Cyllideb 2022/23

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	28 Medi 2021
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	13 Hydref 2021

---

**PWNC**

Eitem 11:STRATEGAETH CYLLIDEB 2022/23

---

**PENDERFYNIAD**

- i. Cymeradwywyd y drefn ac amserlen ar gyfer llunio Cyllideb 2022/23.
  - i. Nodwyd os bydd bwlbh cyllido i fantoli cyllideb 2022/23, bydd y Cyngor yn defnyddio cyllidebau a cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr, a pwylllo cyn adnabod unrhyw arbedion ychwanegol fydd angen yn ystod haf 2022.
  - i. Derbyniwyd cynnwys yr adroddiad fel Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, tra'n nodi, yn y cyd-destun cyfredol, fod cynllunio ariannol yn hynod heriol.
- 

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nodwyd fod yr adroddiad yn rhoi amlinelliad o drefn flynyddol llunio cyllideb am y flwyddyn 2022/23, ynghyd â Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y Cyngor.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---